Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent
Telerau ac Amodau Cyfryngau Cymdeithasol

Rhoi Gwybod am Drosedd

Ni ddylid defnyddio Facebook na/neu Twitter ar gyfer rhoi gwybod am droseddau. Os yw trosedd yn digwydd ar hyn o bryd ac rydych chi neu rhywun arall mewn perygl uniongyrchol, ffoniwch 999. Os ydych am gysylltu â Heddlu Gwent ac nid yw'n argyfwng, ffoniwch 101 neu e-bostiwch contact@gwent.pnn.police.uk

Rheolau'r Tŷ

Er mwyn cyfrannu ar dudalen Facebook Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent, rhaid i chi fod yn 13+ oed ac yn aelod cofrestredig o Facebook. Gweler telerau Facebook: www.facebook.com/legal/terms.

Yn yr un modd, er mwyn cyfrannu ar dudalen Twitter Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent, rhaid i chi fod yn aelod cofrestredig o Twitter. Gweler telerau Twitter: https://twitter.com/tos.

Drwy hoffi a rhyngweithio â thudalennau Facebook a Twitter Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent a chefnogwyr/dilynwyr eraill y dudalen, rydych yn cytuno i gadw at ein rheolau a'n canllawiau syml:

• Nid yw Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent yn atebol am sylwadau'r cyhoedd a adewir ar y dudalen, a mynegiant a barn y cyfrannwr yn unig yw'r rhain, ac nid rhai Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent.

• Mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent yn gofyn i ddefnyddwyr sicrhau bod eu sylwadau yn addas ar gyfer defnyddwyr o bob oed.

• Ni ddylech bostio, rhannu na rhoi dolen at unrhyw ddeunydd anweddus, ffiaidd neu anghyfreithlon sy'n aflonyddu neu'n sarhau staff Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent neu aelodau o'r gymuned.

• Ni ddylech ddefnyddio ein proffil er mwyn postio sbam neu hysbysebion.

• Ceidw Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent yr hawl i ddileu unrhyw sylwadau dilornus, hiliol, rhywiaethol, homoffobig neu ymfflamychol neu unrhyw sylwadau a ystyrir yn amhriodol heb eglurhad.

• Ni ddylech bostio na rhannu'n gyhoeddus unrhyw wybodaeth bersonol adnabyddadwy amdanoch eich hun neu eraill.

• Ni ddylech adael sylwadau a allai amharu ar achos llys sy'n mynd rhagddo neu achos llys yn y dyfodol.

• Os ydych am drafod rhywbeth sensitif gyda ni sy'n ymwneud â chi neu rhywun arall, ffoniwch 01633 642200 neu e-bostiwch Commissioner@gwent.pnn.police.uk

• Mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent yn annog defnyddwyr i fod yn gwrtais o ran eu sylwadau a chefnogi ysbryd y gymuned.

• Caiff sylwadau neu gwestiynau niwsans, dibwynt neu sy'n gwastraffu amser eu dileu.

Noder: caiff unrhyw negeseuon neu sylwadau sy'n mynd yn groes i'r uchod eu dileu a chaiff defnyddwyr eu gwahardd heb eglurhad rhag gallu postio ar wal Facebook neu dudalen Twitter Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent.

Ceidw Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent yr hawl i addasu neu newid y rheolau hyn ar unrhyw adeg.

Gwneud cwyn

Mae gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent ganllawiau polisi clir ar waith i'r cyhoedd wneud cwyn. **Nid** ein tudalennau Facebook a/neu Twitter yw'r fforwm priodol i'r cyhoedd wneud cwyn. Dylid gwneud pob cwyn drwy'r sianeli swyddogol. Ceir rhagor o wybodaeth am sut i wneud cwyn yn: www.gwent.pcc.police.uk/cy/cysylltu-a-ni/cyfleu-cwyn/.

Monitro

Mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent yn cymedroli ac yn diweddaru'r cyfrifon Facebook a Twitter o bryd i'w gilydd. Nid yw Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent yn gwneud unrhyw ymrwymiad i ymateb i sylwadau neu gwestiynau na chymryd rhan mewn dadleuon ar-lein.

Hysbysebu

Nid yw Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent yn gyfrifol am y cynnwys hysbysebu ar Facebook a/neu Twitter ac nid yw'n dewis pa hysbysebion sy'n ymddangos ar dudalen Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent.

Ni fydd tudalennau Facebook a Twitter Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent yn cefnogi unrhyw hysbysebu neu hyrwyddo drwy bostio dolenni na thrwy ymbiliadau am gyfraniadau neu unrhyw fath o godi arian oni chytunir ar hynny ymlaen llaw â'r Pennaeth Staff.

Diffyg Gwasanaeth

Mae'n bosibl na fydd Facebook a/neu Twitter ar gael weithiau ac nid ydym yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am ddiffyg gwasanaeth oherwydd amser segur Facebook/Twitter.

Ymwadiad

Er y bydd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent yn ymdrechu i sicrhau bod y wybodaeth ar y ddau safle'n gywir, fe'i darperir ar sail ‘fel ag y mae’

heb warantau o unrhyw fath, ac ni roddir unrhyw warant, penodol neu ymhlyg, o ran ei chywirdeb na'i chyflawnder.

Nid yw Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent yn derbyn unrhyw atebolrwydd am unrhyw wall neu wybodaeth a hepgorwyd. Ni fydd swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent yn atebol am hawliadau neu golledion trydydd parti o unrhyw natur, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, golledion neu elw, iawndal uniongyrchol, anuniongyrchol, arbennig neu ganlyniadol sy'n deillio o ddefnydd trydydd parti o'r wefan hon neu ei anallu i'w defnyddio.

Nid yw'r wybodaeth ar safleoedd Facebook a/neu Twitter yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol na chyngor proffesiynol arall.

Nid yw Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am gynnwys unrhyw wefan y ceir dolen hyperdestun iddi o'r wefan hon. Darperir y dolenni 'fel ag y maent' heb unrhyw warant, penodol neu ymhlyg, o ran y wybodaeth ynddynt.